



Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

## Vibe



Ateb Nam Synhwyraidd

Canllaw  
Rhaglennu V 1.0



Mae'r Vibe yn ddyfais DDA i gyd mewn un. Mae'r cymorth gweledol a clywadwy yn rhybuddio pobl efo nam synhwyraidd ag anghenion arall fod larwm neu synhwyrydd cysylltiedig wedi cael eu hactifadu. Wedi eu dylunio i ffitio i mewn i'ch ffordd o fyw efo un bocs taclus sydd yn wneud pob dim: rhybuddion ag atgofion clywadwy, gweledol a dirgrynu gobennydd.

Efo 5 eicon LED, mae'n hawdd gweld pa fath o rybudd sydd wedi eu derbyn. Gydag eiconau tân a nwy pwrpasol, mae yna hefyd 3 lleoliad arall. Drwy ddefnyddio'r rhyngwyneb rhaglennu unigryw wedi eu harwain drwy lais, mae'n bosib eu gosod mewn munudau heb ddim offer ychwanegol.



## Cyflwyniad

Mae'r Vibe yn ateb nam synhwyrdd ellir rhaglennu i greu rhybuddion lleol gweledol, clywadwy a digryno. Mae'r Vibe yn hawdd i'w rhaglennu, ac mae'r canllaw isod yn esbonio sut i gael i'r fwydlen rhaglennu. Wedyn, mae'r rhaglennu yn cael ei harwain gan gyhoeddiadau clywadwy. Mae'r Vibe yn cefnogi hyd at 24 o ddyfeisiau

## Paratoi'r Vibe

Mae'r Vibe yn cynnwys y brif uned, pad digryno clustog a chebl pŵer. Cysylltwch y cebl pŵer i'r mewnbwn pŵer o dan y brif uned. Mae'n nawr bosib cysylltu'r pad digryno clustog i Borth 1. Mae nawr yn bosib cysylltu'r ddyfais i'r prif bŵer.

**Nodyn:** Mae'n bosib prynu pad digryno clustog ychwanegol a chysylltu i Borth 2 os bydd angen..

## Troi Ymlaen

Mi fydd y Vibe yn troi ymlaen yn awtomatig pan fydd wedi cysylltu efo pŵer ac mi fydd y LED pŵer ar du blaen y Vibe yn goleuo. Mi fydd y LED pŵer yn curo'n arfer tra mae'r uned yn gwefru ag yn solid pan fydd wedi eu gwefru yn llawn.

## Addasu'r Cyfaint Sain

I newid cyfaint sain y ddyfais, pwych y botwm 'Next' o dan y ddyfais. Defnyddiwch y botwm 'Next' i fynd trwy'r opsiynau. Mi fyddwch chi yn clywed yr opsiynau "low", "medium" a "high". Pan yr ydych wedi cyrraedd eich opsiwn delfrydol, mi fydd yr uned yn aros ar y lefel sain yna.

## Dewislen Ffurfweddu

I fynd i'r ddewislen ffurfweddu, sicrhewch fod y ddyfais wedi troi ymlaen, a phwyswch y botwm 'Select' o dan yr uned am 5 eiliad. Ar ôl 5 eiliad mi fydd yna bîp, cechw nawr rhyddhau'r botwm ac mi fydd y Vibe yn cyhoeddi "Configuration menu, press next to continue". Pwyswch 'Next' i fynd trwy'r opsiynau (gwelwch yr adran nesaf).

**Nodyn:** Os na fydd 'Next' yn cael eu dewis ar ôl cyfnod prin, mi fydd yna sŵn bîp ac mi fydd y ddewislen ffurfweddu yn gal eu gadael.

**Nodyn:** Byddwch yn ymwybodol na fydd rhybudd gwir yn cael eu derbyn gan y Vibe tra eu bod yn fodd ffurfweddu.

## Opsiynau

### Opsiwn 1 - Ychwanegu Synhwyrdd (Protocol Tunstall a TeleAlarm/Bosch)

Mi fydd yr uned yn cyhoeddi "Option 1 - Add Sensor. To add a sensor press select". Os yr ydych eisiau rhaglennu synhwyrdd, pwyswch 'Select'. Mi fydd wedyn yn ofyn i chi actifadu'r synhwyrdd. Actifadu'r synhwyrdd, a dilyn y cyfarwyddiadau i ddewis y lleoliad a sain. Mi fydd synwryddion mwg, gwres, carbon monocsid a nwy yn ffurfweddu'n awtomatig i'r symbolau cyfatebol ar du blaen yr uned. Ar gyfer mathau arall o synwryddion, mae yna 3 lleoliad i ddewis sydd yn gyfatebol i'r lleoliad o'r golau ar du blaen yr uned. Mae yna 22 opsiwn sain i ddewis, a 5 sain benodol ar gyfer mwg, gwres, carbon monocsid a nwy.

Pan yr ydych wedi darford, mi fydd yr uned yn cyhoeddi "sensor registered". Mae'r ddyfais nawr wedi eu cofrestru i'r Vibe ac yn mynd yn ôl i'r ddewislen ffurfweddu. Pwyswch 'Next' i symud i'r opsiwn nesaf. I sicrhau fod y synhwyrdd wedi eu rhaglennu, rhaid gadael y ddewislen ffurfweddu (gwelwch opsiwn 6 isod) ac actifadu'r synhwyrdd yr ydych wedi cofrestru.

**Nodyn:** Os eich bod yn defnyddio protocol TeleAlarm/Bosch, sicrhewch fod digwyddiadau lluosog gan synhwyrdd sengl yn cael eu cofrestru ar wahân (e.e. digwyddiad drws yn agor/drws yn cau). Mae'n bosib cofrestru'r digwyddiad i'r un lleoliad, neu un wahanol.

### Opsiwn 1 - Ychwanegu Synhwyrdd (Protocol VB)

Mi fydd yr uned yn cyhoeddi "Option 1 - Add Sensor. To add a sensor press select". Os yr ydych eisiau rhaglennu synhwyrdd, pwyswch 'Select'. Mi fydd wedyn yn ofyn i chi actifadu'r synhwyrdd. Actifadu'r synhwyrdd, a dilyn y cyfarwyddiadau i ddewis y lleoliad a sain. Mae'n bosib dewis y lleoliad ar gyfer nwy a tân yn ogystal â'r 3 lleoliad arall. Mae yna 5 opsiwn sain ar gyfer lleoliad nwy a tân, a 22 ar gyfer y tri arall.

Pan yr ydych wedi darford, mi fydd yr uned yn cyhoeddi "sensor registered". Mae'r ddyfais nawr wedi eu cofrestru i'r Vibe ac yn mynd yn ôl i'r ddewislen ffurfweddu. Pwyswch 'Next' i symud i'r opsiwn nesaf. I sicrhau fod y synhwyrdd wedi eu rhaglennu, rhaid gadael y ddewislen ffurfweddu (gwelwch opsiwn 6 isod) ac actifadu'r synhwyrdd yr ydych wedi cofrestru.

**Nodyn:** Os eich bod yn defnyddio protocol VB, sicrhewch fod digwyddiadau lluosog gan synhwyrdd sengl yn cael eu cofrestru ar wahân (e.e. digwyddiad drws yn agor/drws yn cau). Mae'n bosib cofrestru'r digwyddiad i'r un lleoliad, neu un wahanol.

**Nodyn:** Mae'n bosib defnyddio opsiwn 1 i newid lleoliad neu sain synhwyrdd sydd wedi eu cofrestru yn barod.

**Nodyn:** Os bod angen cysylltu'r ddyfais i uned Teleofal, mae rhaid rhaglennu'r rhain ar wahân.

### Opsiwn 2 - Dileu Synhwyrdd

Mi fydd yr uned yn cyhoeddi "Option 2 - Remove sensor. To remove a sensor press select". Os yr ydych angen ddileu synhwyrdd, pwyswch 'Select'. Mi fydd wedyn yn ofyn i chi actifadu'r synhwyrdd. Actifadu'r synhwyrdd, mi fydd yr uned yn cyhoeddi "sensor removed". Mae'r ddyfais nawr wedi eu ddileu o'r Vibe ac mi fydd yn mynd a chi yn ôl i'r ddewislen ffurfweddu. Pwyswch 'Next' i symud i'r opsiwn nesaf. **Nodyn:** Os na fydd unrhyw synwryddion wedi cofrestru, mi fydd yr uned yn cyhoeddi "there are no registered sensors. Please press next to move to option 3."

### Opsiwn 3 - Strôb Ymlaen/I Ffwrdd

Mi fydd yr uned yn cyhoeddi "Option 3 - Strobe on/off" (yn dibynnu os mae o ymlaen neu i ffwrdd). Pwyswch 'Select' i symud rhwng opsiynau 'on' ag 'off' a phwyswch 'Next' i symud i'r opsiwn nesaf.

### Opsiwn 4 - Ailosod i Opsiynau Ffatri

Mi fydd yr uned yn cyhoeddi "Option 4 - Factory reset. To reset the unit to factory settings, please follow the instructions in the programming guide". I ailosod yr uned, pwyswch 'Select' 5 gwaith. Mi fydd yr uned yn cyhoeddi "factory reset completed" ac wedyn yn symud ymlaen i opsiwn 5 o'r ddewislen ffurfweddu.

### Opsiwn 5 - Troi'r Vibe I Ffwrdd

Mi fydd y Vibe yn cyhoeddi "Option 5 - Turn the Vibe off. To turn the Vibe off, please follow the instructions in the programming guide". I droi'r uned i ffwrdd, pwyswch 'Select' 5 gwaith. Mi fydd yr uned yn cyhoeddi "shutting down, please wait". Unwaith mae'r LED ar du blaen yr uned wedi mynd i ffwrdd, mae'n bosib datgysylltu o'r prif bŵer. I droi'r Vibe yn ôl ymlaen, gwelwch yr adran 'troi ymlaen' uchod.

### Opsiwn 6 - Gadael y ddewislen ffurfweddu

Mi fydd yr uned yn cyhoeddi "Option 6 - Exit configuration menu". I adael y ddewislen, pwyswch 'Select' ac mi fydd yr uned yn cyhoeddi "goodbye" ac mae'r uned nawr yn barod i gael eu defnyddio. I fynd yn ôl i gychwyn y ddewislen, pwyswch 'Next' i fynd i opsiwn 1.

**Nodyn:** Sicrhewch eich bod wedi gadael y modd ffurfweddu cyn defnyddio'r Vibe cyn i chi brofi synhwyrdd cofrestredig.

## Troi i Ffwrdd

Cyn troi'r Vibe i ffwrdd, ewch i'r ddewislen ffurfweddu a dewiswch opsiwn 5 (gwelwch uchod). Unwaith mae'r LED ar du blaen yr uned wedi mynd i ffwrdd, mae'r uned yn saff i ddatgysylltu. Os mae'r Vibe wedi datgysylltu achos fod pŵer wedi torri, mi fydd yr uned yn cyhoeddi "mains power off". I stopio'r neges yma, pwyswch y botwm strôb. Pan mae'r uned yn defnyddio'r batri ac mae'r batri yn isel, mi fydd yr uned yn cyhoeddi "battery low". I stopio'r neges, pwyswch y botwm strôb. Pan mae'r uned yn ôl ymlaen, mi fydd yr Vibe yn cyhoeddi "mains power on".

## Modd Prawf Cerdded

Mae'r modd prawf cerdded yn eich galluogi i sicrhau fod synwryddion sydd wedi eu cofrestru o fewn pellter gweithio'r Vibe. I fynd i fodd prawf cerdded, pwyswch y botwm 'Select' am 5 eiliad ar ôl i sŵn y bîp, wedyn fydd yna 2 bîp ychwanegol. Ar ôl rhyddhau'r botwm 'Select' mi fydd yr uned yn cyhoeddi "walk test mode". Mi fydd modd prawf cerdded yn actif am 60 eiliad. Ar ôl derbyn synhwyrdd sydd wedi eu cofrestru, mi fydd yna bîp a fydd y strôb yn fflachio. I adael modd prawf cerdded, pwyswch y botwm strôb neu adael i'r uned darfydd ym amser prawf; mi fydd yna bîp isel i gadarnhau fod y prawf cerdded wedi dod i ben. **Pwysig:** Mae rhaid bod y synhwyrdd wedi cofrestru i'w brofi yn fodd prawf cerdded. Mi fydd synwryddion sydd heb eu cofrestru yn cael eu hanwybyddu. **Nodyn:** Byddwch yn ymwybodol na fydd rhybudd gwir yn cael eu derbyn gan y Vibe tra eu bod yn fodd prawf cerdded.

## Newid y Protocol

Mae'r Vibe yn ddyfais rhyngweithredol gyda thri phrotocol adeiledig. Mae'n bosib rhaglennu'r protocol yn y ddewislen protocol.

I gael i'r ddewislen protocol, pwyswch y botwm 'Select' am 15 eiliad tan fydd yna 3 bîp. Pan fydd y 3 bîp yn swnio, parhewch i bwysu lawr y botwm 'Select', a pwyswch a rhyddhau'r botwm 'Next' 5 gwaith. Mi fydd y Vibe yn cadarnhau'r protocol sydd wedi eu rhaglennu; gewch nawr rhyddhau'r botwm 'Select'. I newid y protocol, pwyswch 'Next' a fydd y Vibe yn cyhoeddi 'Protocol 1', 'Protocol 2', a 'Protocol 3' mewn trwm.

- Protocol 1: Tunstall
- Protocol 2: Tealarm/Bosch
- Protocol 3: VB

Pwyswch 'Select' pan fydd y Vibe yn cyhoeddi'r rhif protocol sydd angen. Mi fydd y Vibe yn cyhoeddi'r rhif protocol sydd wedi eu dewis ac mi fydd bîp yn cadarnhau eich bod wedi gadael y ddewislen protocol. Os nad ydych yn pwysu 'Select' mi fydd yr amser yn dod i ben a fydd yna bîp methiant yn swnio; ni fydd yna newid i'r protocol. **Pwysig:** Mi fydd newid y protocol yn ailosod y Vibe i osodiadau ffatri ac mi fydd hyn yn clirio unrhyw synwryddion sydd wedi eu cofrestru. Os na fydd yna newid i'r protocol, mi fydd y Vibe yn cadw'r gosodiadau

## Amodau Nam

Pan fydd yna nam yn bresennol, mi fydd y LED nam ambr ar du blaen y Vibe yn goleuo. Am fwy o wybodaeth am y math o nam, pwyswch y botwm 'Select' yn sydyn tra bydd y LED nam ambr yn goleuo, pan na fydd yr uned mewn defnyddiad.

## Batri Isel Synhwyrdd

Pan fydd synhwyrdd sydd wedi eu cofrestru efo batri isel yn cael eu hactifadu, neu yn gyrru neges batri isel, mi fydd y LED nam ambr yn goleuo. Mi fydd y LED yn parhau i oleuo nes bod y Vibe yn derbyn neges gan y synhwyrdd ar ôl i'r batri cael eu hatgyweirio, neu fod yr uned wedi cael eu hailosod. Am fwy o wybodaeth ar fath y synhwyrdd a'r ID, pwyswch y botwm 'Select' yn sydyn.

## Materion Batri

Os mae'r Vibe yn gweithredu mewn tymheredd llai na 5°C neu dros 50°C ni fydd y batri yn gwefru. O dan yr amodau yma, mi fydd y LED ambr yn goleuo. Mi fydd hefyd yn digwydd os mae'r batri efo nam neu wedi cael eu dileu. Mi fydd pwysu'r botwm 'Select' yn sydyn yn cyhoeddi "battery faulty".

## Ailosod Meddal

Yn y digwyddiad annhebygol fod y Vibe yn anymatebol, pwyswch a dal lawr y botymau 'Next' a 'Select' am o leiaf 10 eiliad, nes bod y LED ar du blaen yr uned yn goleuo. Wedyn rhyddhau'r botymau ac mi fydd y Vibe yn ailosod.

**Nodyn:** Mi fydd hyn yn ailosodiad meddal na fydd yn effeithio'r gosodiadau neu'r synwryddion sydd wedi eu cofrestru.

## Methiant Prif Gyflenwad a Batri'r Uned yn Isel

Os fydd yna fethiant prif gyflenwad neu fod yr uned wedi eu datgysylltu o'r pŵer, mi fydd y Vibe yn cyhoeddi "mains power off" yn gyfnodol. I stopio'r cyhoeddiad, pwyswch y botwm strôb. **Pwysig:** Cysylltwch y Vibe yn ôl i bŵer cyn gynted â phosib os mae o wedi eu datgysylltu.

Pan fydd batri'r Vibe yn mynd yn isel, mi fydd y Vibe yn cyhoeddi "battery low" yn gyfnodol. I stopio'r cyhoeddiad pwyswch y botwm strôb. Mi fydd y batri yn datgysylltu pan mae'n cyrraedd lefel rhagosodedig ac mi fydd yn cael eu gosod i fodd pŵer isel; fydd angen troi'r Vibe yn ôl ymlaen ar ôl yn (gwelwch dudalen 3). **Pwysig:** Sicrhewch fod y Vibe wedi cysylltu i brif gyflenwad lle bynnag sy'n bosibl.

## Manylebau

Cydnawsedd	Protocolau diwydiant amrywiol
Amledd Gweithredu	869.2125 MHz
Maint	H55 x LI90 x D90 mm
Cyflenwad Pŵer	Soced prif gyflenwad
Batri wrth Gefn	24 awr
Pellter Gweithio	Hyd at 400m
Cydymffurfio	UKCA / CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

### Pacio

Mae'r offer yma yn cynnwys pac batri 'lithiym-polymer' ac mae rhaid ei phacio mewn pecyn cryf, anhyblyg a rhoi yn i le yn ofalus i sicrhau dim symudiad o fewn y pecyn i osgoi actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

### Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin.

### Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

